Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Ffwrnes
# Ffwrnes
# Llanelli
# SA15 4HT

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Ffwrnes sydd wedi'i lleoli ar gyrion tref Llanelli. Caiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r dalgylch at ei gilydd yn un ffyniannus nac yn ddifreintiedig, er bod rhai ardaloedd o dan anfantais economaidd. Mae 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim; ffigwr sydd yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer yr awdurdod lleol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 213 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed. Gwelir cryn dwf yn nifer y disgyblion ers yr arolygiad diwethaf. Daw 28% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg yn brif iaith. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Dynodir 24% o'r disgyblion yn rhai sydd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol; ffigwr sydd yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae tri disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae nifer fach iawn o ddisgyblion y gofelir amdanynt gan yr awdurdod lleol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2000.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,189 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn safle 94ain o'r 110 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol.

Mae'r cryfderau yn cynnwys:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- yr amrediad da o brofiadau dysgu a gynigir o fewn a thu allan i'r ysgol;
- yr amgylchedd dysgu gofalgar sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn dda;
- ymddygiad da iawn y disgyblion.

Er hynny:

- mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyffredinol is na rhai'r teulu o ysgolion tebyg;
- mae canlyniadau disgyblion mwy galluog yn amrywio'n sylweddol o gymharu ag ysgolion tebyg;
- mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn anghyson ar draws yr ysgol; ac
- nid yw'r gweithdrefnau arfarnu yn canolbwyntio'n ddigon cyson ar ddeilliannau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach wedi'i seilio ar ddealltwriaeth sicr o'i hanghenion cyfredol;
- mentrau diweddar, sy'n cynnwys system o dracio a thargedu grwpiau o ddisgyblion, yn arwain at welliannau mesuradwy;
- tystiolaeth o gynnydd sylweddol yn safonau cyflawniad disgyblion yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 dros y ddwy flynedd diwethaf;
- corff llywodraethol yn darparu cyfeiriad strategol cadarn ac yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, a gwella ymhellach cyflawniad merched yng nghyfnod allweddol 2 a'r disgyblion mwyaf galluog yn y ddau gyfnod allweddol;

A2 ymestyn medrau dysgu disgyblion, yn arbennig medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg, yn y ddau gyfnod allweddol;

A3 gryfhau agweddau ar yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol;

A4 wella ansawdd yr adborth ysgrifenedig a gynigir i ddisgyblion, a datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ymhellach;

A5 sicrhau cysondeb wrth weithredu prosesau hunan arfarnu a chryfhau'r ffocws ar ddeilliannau disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae canlyniadau disgyblion saith oed yn gyson is na chanlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau hefyd yn amrywio mewn cymhariaeth â chanlyniadau'r awdurdod lleol a Chymru ond maent yn is yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canlyniadau'r disgyblion yn anwastad ond yn dangos gwelliant yn y ddwy flynedd ddiwethaf. At ei gilydd, mae'r canlyniadau ar i fyny ac yn gyffredinol uwch nag ysgolion tebyg o fewn y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae canlyniadau Cymraeg yn fwy anwastad.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau sy'n uwch na'r disgwyl, sef lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1 a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2, yn amrywio. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'n gyffredinol is na chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 1. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau'r bechgyn yn well ar y cyfan na'r merched. Mae canran y merched sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig yn is na'r teulu yn y rhan fwyf o bynciau.

Mae canlyniadau'r disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn debyg i gyfartaleddau'r teulu yng nghyfnod allweddol 1. Maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol yn gwneud cynnydd da o gymharu â'u hoed a'u gallu.

Ac eithrio ysgrifennu, mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg. Maent yn gwrando'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol ar lafar ac yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol i drin a thrafod yn ystod gwersi. Er hyn, atebion byr a geir ar y cyfan. Mae'r disgyblion yn darllen yn glir, gyda mynegiant priodol, ond nid yw eu medrau arfarnu wrth drafod eu deunydd darllen yn datblygu'n gyson. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ac mae ansawdd y cynnwys yn fwy anwastad.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau medrau llythrennedd Saesneg yn dda. Gall mwyafrif y disgyblion drafod eu gwaith yn effeithiol. Maent yn darllen ar goedd yn glir ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu gallu i ysgrifennu i ystod o bwrpasau gyda chywirdeb priodol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae grwpiau o ddisgyblion, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, yn ddefnyddwyr hyderus a medrus o ystod o fedrau. Gwnânt ddefnydd effeithiol ohonynt mewn sawl maes o'r cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, gwna'r disgyblion ddefnydd addas o'u medrau rhif i gynorthwyo'u gwaith mewn pynciau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael ystod o fedrau ehangach. Yn yr arfer orau, defnyddiant eu medrau meddwl a'u medrau hunan asesu yn effeithiol yn eu gwaith. Nid yw'r plant yn datblygu'r medrau hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n fwy annibynnol yn amrywio ar draws y dosbarthiadau.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn flaengar wrth hybu holl agweddau cadw'n iach a diogel ac o'r herwydd mae'r disgyblion yn wybodus iawn o ofynion bwyta'n iach a magu arferion personol da. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant amlwg yn eu dysgu.

Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Maent yn mwynhau bod yn yr ysgol gyda lefelau presenoldeb yn gyson tua 93%, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfraddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol.

Mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad da i fywyd y gymdeithas leol ac fe geir cyswllt cryf gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion. Maent yn elwa o'r cysylltiadau a'r profiadau hyn ac yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol, sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Caiff cyfraniad cyffredinol a llais y disgybl le amlwg yn yr ysgol ar agweddau megis gweithgareddau cymdeithasol, hybu cynaladwyedd, trefniadau masnach deg a dinasyddiaeth fyd eang. Mae cyfraniad y disgyblion i lwyddiant Cwmni Ffrwythau a Llysiau'r ysgol yn nodweddiadol. Nid yw cyfraniad a llais y Cyngor Ysgol wedi datblygu cystal.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu o fewn y dosbarthiadau. Ar y cyfan, mae cwricwlwm cyfnod allweddol 2 wedi ei gynllunio'n drwyadl ac yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynllunio eto'n arf i ymestyn a herio'r disgyblion mwyaf abl. Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn briodol. Mae cynllunio pwrpasol i hyrwyddo'r medrau dysgu ond anwastad yw'r gweithredu ar draws y ddau gyfnod allweddol.

Mae dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n gyson. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol a diddorol er mwyn meithrin eu hunaniaeth. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei integreiddio'n llwyddiannus i amrywiol agweddau o'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o'u lleoliad, eu hardal a Chymru yn datblygu'n dda.

Mae gweithgareddau'r pwyllgorau eco a masnach deg yn hybu gwybodaeth y disgyblion o gynaladwyedd a'r amgylchfyd ac yn gwneud cyfraniad pwysig i fywyd yr ysgol. Mae tua 25 o ddisgyblion yn ymgymryd yn rheolaidd gyda threfnu Cwmni Ffrwythau a Llysiau sy'n hybu medrau cyfranogi, gwneud penderfyniadau a mentergarwch y disgyblion hyn yn llwyddiannus. Hybir dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol iawn drwy gysylltiadau'r ysgol gyda nifer o wledydd yn Ewrop.

## Addysgu: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwersi wedi eu cynllunio'n briodol gydag amcanion eglur. Lle mae'r addysgu yn effeithiol, gwneir defnydd da o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Ceir ffocws da ar adeiladu ar waith blaenorol, cwestiynu pwrpasol a gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu'n addas i gefnogi'r dysgwyr llai galluog. Defnyddir staff cymorth yn dda o fewn y dosbarthiadau ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol

Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes cyfleoedd digonol i'r disgyblion i gyfrannu'n llawn ar lafar ac ni ddarperir gwaith ymestynnol i herio'r disgyblion mwyaf galluog yn ddigon cyson. Mae'r cyfleoedd i'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol hefyd yn anwastad. Yn ogystal, y mae yna orddibyniaeth ar daflenni gwaith yn y Cyfnod Sylfaen ac mewn rhai pynciau yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gweithdrefnau asesu priodol mewn lle gan gynnwys system tracio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol. Gwneir defnydd addas o'r data a gynhyrchir i fonitro cynnydd y disgyblion.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n gyson. Yn yr arfer orau, rhoddir adborth ar lafar neu'n ysgrifenedig sy'n gymorth i'r disgyblion i wella ansawdd eu gwaith. Cynllunnir cyfnodau pwrpasol i'r disgyblion i weithredu ar yr adborth a roddir, ynghyd â chyfleoedd iddynt i hunan asesu ac i asesu eu cyfoedion. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r adborth ysgrifenedig yn ddigon cyson i gynorthwyo'r disgyblion i fynd i'r afael â'r agweddau sydd angen sylw. Nid yw strategaethau asesu ar gyfer

dysgu wedi eu gwreiddio'n ddigonol ym mhob dosbarth i ddylanwadu'n bositif ar gyraeddiadau'r disgyblion.

Darperir gwybodaeth i rieni am gyflawniad a chynnydd eu plant mewn tri chyfarfod blynyddol, ac adroddiad ysgrifenedig. Mae'r adroddiadau'n eglur ac yn cynnig targedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Sicrheir cymuned ofalgar a threfnus iawn lle teimla pawb y cânt eu gwerthfawrogi. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Rhydd yr ysgol sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion a cheir perthynas waith effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn hyrwyddo mynediad llawn i'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl. Mae'r ysgol yn flaenweithgar wrth adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar, ac yn tracio'r dysgwyr yn drylwyr iawn drwy weithredu system fapio effeithiol. Cynllunnir y gefnogaeth yn ofalus gan ddarparu ystod eang o raglenni ymyrraeth er mwyn symud y dysgu yn ei flaen. Llwydda'r ysgol i dargedu carfannau o ddisgyblion yn effeithiol sydd wedi arwain at gynnydd mesuradwy mewn safonau darllen. Mae'r Cynlluniau Addysg Unigol yn ddogfennau gweithredol ac mae'r Proffiliau Unigol yn arf effeithiol er mwyn cynnwys y disgyblion a'u rhieni yn y broses o lunio rhaglenni cefnogaeth.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae'r polisi a chynlluniau cydraddoldeb hiliol yn eu lle sy'n bodloni'r gofynion statudol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae gweithdrefnau priodol yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Mae'r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau wedi'u lleoli yn y prif adeilad ac mewn chwe chaban ar safle'r ysgol. Gwna'r ysgol y defnydd gorau posib o'r lle sydd ar gael. Er hyn, nid yw'r safle na'r adeiladau yn cynnig yr ystod o gyfleusterau dysgu angenrheidiol. Mae'r neuadd, sydd yn cael ei defnyddio fel ffreutur, yn annigonol ei maint ar gyfer sesiynau cyd addoli ysgol gyfan a gwersi addysg gorfforol.

Ceir amrywiaeth o adnoddau sy'n cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn effeithiol. Yn yr arfer orau, defnyddir gwaith plant ac arddangosfeydd i gyfoethogi'r amgylchedd. Gwneir defnydd da o gyfleusterau chwaraeon yr ardal i ychwanegu at y cyfleoedd a ddarperir yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae ei gweledigaeth o godi safonau ieithyddol disgyblion yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda rhieni, llywodraethwyr a staff. Mae'n adnabod blaenoriaethau datblygu

addas i symud yr ysgol ymlaen ac yn arwain cynlluniau llwyddiannus sydd yn gwella safonau, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. At ei gilydd, mae staff yr ysgol yn rhannu'r un gwerthoedd ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleoedd cyfartal. Maent yn deall eu rolau ac yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig effeithiol o ran rheoli perfformiad a hyfforddiant athrawon.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Mae ganddynt gyfrifoldebau unigol am feysydd dysgu ac maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson i fonitro'r ddarpariaeth. Maent yn dadansoddi data perfformiad yn effeithiol ac yn herio'r ysgol yn ystyrlon. Cyfrannant yn bwrpasol at y broses hunan arfarnu.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol yn gweithredu nifer o strategaethau datblygu llythrennedd gan gynnwys datblygu sgiliau adrodd ac ysgrifennu stori er mwyn codi safonau disgyblion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarn gyda sawl gwlad tramor drwy brosiect Comeniws ac yn ymchwilio i mewn i entrepreneuriaeth a chynaladwyedd. Datblygir sgiliau cymdeithasol disgyblion yn dda gan gynllun addysg bersonol a chymdeithasol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar agweddau cymdeithasol ac emosiynol dysgu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r gweithdrefnau hunan arfarnu yn sefydledig, ac yn adnabod blaenoriaethau perthnasol ar gyfer datblygu. Defnyddir ystod o brosesau arfarnu addas sy'n cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi ac arfarnu agweddau gwahanol y meysydd dysgu. Ceisir barn disgyblion, staff a rhieni yn gydwybodol.

Yn yr arfer orau, mae gweithdrefnau arfarnu yn rhoi sylw effeithiol i arfarnu safonau ac mae'r gweithredu sy'n dilyn yn arwain at welliant yng nghyflawniadau disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw'r prosesau yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson i godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar draws y pynciau.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen sy'n rhoi darlun cytbwys o'r ysgol. Mae cysylltiad digon clir rhwng yr adroddiad a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Er hynny, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau disgyblion.

Yn ddiweddar, o dan arweiniad y pennaeth, defnyddiwyd data yn bwrpasol i dargedu cymorth penodol i grwpiau o ddisgyblion. Mae'r strategaeth hon yn symud dysgu carfannau o ddisgyblion ymlaen yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i atgyfnerthu'i hymrwymiad i rwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion o fewn y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol. Mae'r staff yn ymwneud ag ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu effeithiol ac adlewyrchir hyn mewn agweddau ar y ddarpariaeth megis y ffocws ar wella medrau ysgrifennu'r disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cyfrannu iddo mewn dulliau ymarferol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd lleol i baratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer trosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal i sicrhau cysondeb yn yr asesiadau o waith disgyblion. Sefydlir partneriaeth gadarn gyda grŵp meithrin Ffwrnes a gynhelir ar dir yr ysgol.

Mae partneriaethau cryf gyda'r awdurdod lleol a Choleg Sir Gâr. Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas ddefnyddiol iawn gyda chymunedau busnes yn yr ardal, a gyda Menter Llanelli. Caiff y bartneriaeth gyda chlybiau rygbi, squash a thenis lleol a gyda phrosiect datblygu sgiliau effaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol a chymdeithasol y disgyblion. Trefnir gweithgareddau, megis cyngherddau a gwasanaethau, yn rheolaidd yn y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arian. Maent yn sicrhau cyflenwad priodol o staff sy'n gymwys i gyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn rheoli cyllideb ac adnoddau'r ysgol yn effeithiol ac yn adolygu'r gwariant yn briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu a'r cytundeb baich gwaith wedi'u trefnu'n dda. Mae athrawon yn manteisio'n effeithiol ar y cyfleoedd hyn. Yn ychwanegol, cânt hyfforddiant cyson gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn darparu gwaith ar lefel sy'n rhoi sialens berthnasol i'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Caiff y gwariant yng nghynlluniau datblygu'r ysgol ei gynllunio a'i gofnodi'n ofalus. O ystyried perfformiad yr ysgol, yn enwedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ac ansawdd rhai agweddau ar y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn is na'r teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf. Maent yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru mewn tair allan o'r pedair blynedd. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân wedi bod yn anwastad. Yn 2011, mae canlyniadau Cymraeg yn well na chyfartaleddau'r teulu ac yn debyg i gyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae canlyniadau asesiadau 2011 mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% isaf a chanlyniadau Cymraeg yn y 50% isaf. Ers pedair blynedd, mae'r dangosydd pwnc craidd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ym mhob blwyddyn. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r canlyniadau yn amrywio rhwng y 25% a'r 50% isaf. Mewn Cymraeg maent yn y 50% isaf mewn tair allan o'r pedair blynedd.

Tros bedair blynedd, mae’r canran o ddisgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 3 yn anwastad ac yn 2011 mae’n sylweddol is na’r cyfartaledd ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru yn y tri phwnc craidd. Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau merched yn well na’r bechgyn yn y Gymraeg.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn anwastad ond yn dangos gwelliant yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn asesiadau 2011, mae canran y disgyblion sy’n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o’r pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na’r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân, mae’r canlyniadau yn uwch na’r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mewn Cymraeg, mae’r canlyniadau yn debyg i gyfartaleddau’r awdurdod lleol ond yn is na chyfartaleddau’r teulu a Chymru.

Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae’r canlyniadau mewn mathemateg yn y 25% uchaf, Saesneg yn y 50% uchaf a’r Gymraeg a gwyddoniaeth yn y 50% isaf. Tros bedair blynedd, mae’r dangosydd pwnc craidd yn amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uchaf. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae’r canlyniadau yn amrywio rhwng y 25% isaf a’r 25% uchaf. Mewn Saesneg, mae’n amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uchaf. Mewn Cymraeg, mae yn y 50% isaf dros bedair blynedd.

Mae’r tuedd yn y canran disgyblion sy’n cyrraedd lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywio’n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Mae’r tuedd yn y canran sydd wedi cyrraedd lefel 5 yn Saesneg ar i fyny ac yn uwch na chanlyniadau’r awdurdod lleol a Chymru ac yn debyg i ganlyniadau’r teulu. Mae’r canlyniadau mewn mathemateg yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond yn uwch na’r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru mewn dwy allan o’r pedair blynedd. Mae’r canlyniadau mewn gwyddoniaeth yn is na’r teulu yn y rhan fwyaf o’r blynyddoedd ac yn amrywio o gymharu â chanlyniadau’r awdurdod lleol a Chymru. Mae’r canlyniadau yn y Gymraeg yn is na’r teulu a’r awdurdod lleol mewn pedair blynedd ac yn is na Chymru mewn tair allan o bedair. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae canran y bechgyn a gyflawnodd lefel 5 yn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth yn cymharu’n ffafriol gyda chanlyniadau’r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

At ei gilydd, mae canlyniadau’r bechgyn yn well na’r merched. O ran cyflawni lefel 4, mae’r bechgyn yn cyflawni’n well na’r merched mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mewn mathemateg, nid oes gwahaniaeth yn y canlyniadau. O ran cyflawni lefel 5, mae bechgyn yn cyflawni'n well na’r merched ym mhob pwnc. Mae canran y merched sy’n cyflawni lefel 4 yn is na’r teulu yn y rhan fwyaf o bynciau.

Yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011, mae’r canran sy’n cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn llafar a darllen Cymraeg yn uwch na’r teulu. Mae safonau ysgrifennu yn is. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llafar a darllen Cymraeg yn uwch na’r teulu ond maent yn sylweddol is mewn ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llafar a darllen Saesneg ar i fyny ac yn uwch na’r teulu. Mae safonau ysgrifennu yn is.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 24 o holiaduron gan y rhieni. Mae'r rhan fwyaf yn fodlon â'r ysgol. Mae pawb yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac wedi ymgartrefu'n dda. Dywedant fod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd da. Dywedant fod ansawdd yr addysgu yn dda. Mae llawer o'r farn fod y staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch a bod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Maent yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Dywedant fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Dywed y mwyafrif o'r rhieni eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae llawer yn nodi eu bod yn teimlo'n ddigon esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gydag unrhyw gwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Tua hanner sy'n glir ynghylch gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Dywed pob un o'r rhieni fod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu ac i ymgymryd â chyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 102 o ddisgyblion yr holiadur. Mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Dywed llawer bod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda. Mae'r holl ddisgyblion yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach, ac mae'r rhan fwyaf yn dweud bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn meddwl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae bron pawb yn cytuno bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio. Tua hanner sy'n cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi.

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Robert Huw Jenkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catherine Lloyd Jenkins | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.